



**DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003**  
**TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE**

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

Rhif trwydded | Premises licence number:

**PRM 0801 (Cyhoedwyd | Issued : 19/08/2021)**

**Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details**

**Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:**  
**Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:**  
**PANTYFOD GARDENS**  
**LLANDDEWI BREFI**

**Tref bost | Post town**

**TREGARON**

**Côd Post | Post code**

**SY25 6PE**

**Rhif ffôn | Telephone number**

**01570 493742**

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau | Where the licence is time limited the dates**  
**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED**  
**PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded:**  
**Licensable activities authorised by the licence:**

**ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL**

**ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT**

**CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC**

**CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC**

**FFILMIAU | FLIMS**

**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**  
**The times the licence authorises the carrying out of licensable activities**

**ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL-- LLUN/SAD – MON/SAT – 11:00 - 22:30**  
**SUL /SUN – 11:00 – 21:30**

**CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC-- LLUN/SAD – MON/SAT – 11:00 -23:00**  
**SUL /SUN – 11:00 – 22:00**

**CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC-- LLUN/SAD – MON/SAT – 11:00 - 23:00**  
**SUL /SUN – 11:00 – 22:00**

**FFILMIAU | FLIMS – LLUN/SAD – MON/SAT – 11:00 -23:00**  
**SUL /SUN – 11:00 – 22:00**

**Oriau agor y safle | The opening hours of the premises**

**DYDD LLUN | MONDAY : 11:00 – 23:00**

**DYDD MAWRTH | TUESDAY : 11:00 – 23:00**

**DYDD MERCHER | WEDNESDAY : 11:00 -23:00**

**DYDD IAU | THURSDAY : 11:00 – 23:00**

**DYDD GWENER / FRIDAY: 11:00 – 23:00**

**DYDD SADWRN | SATURDAY : 11:00 -23:00**

**DYDD SŪL | SUNDAY : 11:00 – 21:30**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**

**Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE | ON AND OFF SALES**

**Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle | Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of premises licence**

**Karli Dawn Poole  
Pantfod Gardens  
Pantfod  
Llanddewi Brefi  
Ceredigion  
SY25 6PE**

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol) Registered number of holder, for example company number, charity number (where applicable)**

**Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol | Name, address and telephone number of designated premises supervisor where the premises licence authorises the supply of alcohol**

**Karli Dawn Poole  
Pantfod Gardens  
Pantfod  
Llanddewi Brefi  
Ceredigion  
SY25 6PE**

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y  
Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol  
Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated  
premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol**

**CER 1479 CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

## **ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL**

### **1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
- (2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
  - (a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
  - (b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

### **2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
- (2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
- (3)
  - (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
  - (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
- (4) Yn yr adran hon -  
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae "corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

### **3 Amod gorfodol: goruchwyllo drysau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
  - (a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
  - (b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
    - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
    - (ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon -
  - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
  - (b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

## Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

### Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.
2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-
  - (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);
  - (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –
$$P = D + (D \times V)$$
pan mai –
    - (i) P yw'r pris a ganiateir
    - (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
    - (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol
  - (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
    - (i) Deiliad y drwydded safle,
    - (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
    - (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;
  - (d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac
  - (e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)
3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.  
(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

## **Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014**

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.**

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

## **Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS**

### **1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol**

(1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.

(2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-

(a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or

(b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.

(3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

### **2 Mandatory condition: exhibition of films**

(1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.

(2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.

(3) Where-

(a) the film classification body is not specified in the licence, or

(b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.

(4) In this section - "children" means persons aged under 18; and "film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984

(c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

### **3 Mandatory condition: door supervision**

(1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.

(2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-

(a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licenses authorising plays or films), or

(b) in respect of premises in relation to-

(i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or

(ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions prescribed by regulations under that Act).

(3) For the purposes of this section-

(a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and



(b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

### **The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014**

#### **With effect from 28<sup>th</sup> May 2014**

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.
2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-
  - (a) “duty” is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;
  - (b) “permitted price” is the price found by applying the formula –
$$P = D + (D \times V)$$
where –
    - (i) P is the permitted price
    - (ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and
    - (iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol
  - (c) “relevant person” means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –
    - (i) The holder of the premises licence,
    - (ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or
    - (iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;
  - (d) “relevant person” means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and
  - (e) “valued added tax” means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994
3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.
4. (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day (“the first day”) would be different from the permitted price on the next day (“the second day”) as a result of a change to the rate of duty or value added tax.
  - (2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

## **The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014**

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1<sup>st</sup> October 2014**

**Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.**

**1.** (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

**2.** The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

**3.** (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18 years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

(a) a holographic mark, or

(b) an ultraviolet feature.

**4. The responsible person must ensure that—**

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

(i) beer or cider: ½ pint;

(ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and

(iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and

(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

## **Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule**

- a) Cyffredinol | General**
- b) Atal trosedd ac anrhefn | The prevention of crime and disorder**
- c) Diogelwch y cyhoedd | Public safety**
- d) Atal niwsans cyhoeddus / The prevention of public nuisance**
- e) Amddiffyn plant rhag niwed The protection of children from harm**

### **Cyffredinol – y pedwar amcan trwyddedu**

Mae'r gweithgareddau sydd wedi'u rheoleiddio wedi'u hanelu'n bennaf at y teulu ac felly bydd yr ymagwedd a'r awyrgylch yn cynnwys pob grŵp oedran. Gan mai busnes ar sail archebion yn unig yw hwn, cedwir cofrestr o bawb sy'n mynychu'r lle a bydd goruchwyliaeth effeithiol ar waith. Rwy'n aelod o Pubwatch ac mae cynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd Pubwatch ac yn cymryd rhan ym mhob un o'u mentrau. Bydd deiliad Trwydded Bersonol ar y safle ar bob achlysur pan fydd alcohol yn cael ei werthu neu pan fydd adloniant wedi'i reoleiddio yn cael ei ddarparu.

Bydd pob arwydd diogelwch a fydd yn rhybuddio cwsmeriaid am bob perygl i'w hiechyd a'u diogelwch yn cydymffurfio â BS5378 1980 : Arwyddion a Lliwiau Diogelwch

Bydd dŵr yfed ar gael am ddim ar bob adeg pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd ac mae'r tapiau wedi'u labelu'n unol â hynny.

Rydym yn gweithredu polisi dim ysmegu llawn ar y safle.

### **Atal trosedd ac anrhefn**

Cofnodir manylion pob ymwelydd. Mae system camerâu cylch cyfyng wedi'i gosod ac mae arwyddion priodol wedi'u harddangos i recordio pob gweithgaredd trwyddedadwy a bydd y recordiad yn cael ei gadw am gyfnod o 28 diwrnod. Bydd Goruchwylwr Dynodedig y Safle yn sicrhau bod yr ardal drwyddedadwy yn cael ei goruchwyllo'n barhaus. Bydd pob diod alcoholig yn cael ei gweini mewn gwydrau plastig neu wydrau gwydn. Ni fydd mynediad ar unrhyw adeg i gwsmeriaid a fydd yn cario poteli agored neu boteli wedi'u selio neu wydrau. Bydd biniau'n cael eu darparu er mwyn cael gwared ar wydrau a fydd wedi'u defnyddio, lle bo hynny'n berthnasol. Bydd pob gwydr arall yn cael ei symud o'r ardaloedd cyhoeddus cyn gynted â phosibl.

Bydd pob aelod o staff yn defnyddio radio er mwyn cyfathrebu'n effeithiol. Bydd gennym bolisi prawf oedran a fydd wedi'i lunio yn unol â chanllaw presennol yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol. Mae gennym agwedd dim goddefgarwch tuag at gyffuriau ac ni fyddwn yn goddef y defnydd o gyffuriau a byddwn yn hysbysu'r awdurdod perthnasol am unrhyw achos o'r fath.

### **Diogelwch y cyhoedd**

Cynhaliwyd Aseiad Risg Tân priodol ar y safle ac rydym wedi rhoi'r mesurau rheoli angenrheidiol ar waith. Darperir mynediad i gerbydau argyfwng a chedwir y mynediad hwn yn glir ac yn rhydd rhag rhwystrau ar bob adeg. Cynhelir ymarfer tân a phroffion ar y goleuadau brys yn wythnosol/yn fisol. Mae cofnodion y profion hyn ar gael ar gais.

Mae trefniadau digonol yn bodoli er mwyn galluogi pobl anabl i symud yn ddiogel ar y safle a hefyd i wneud yn siŵr y gellid eu cael oddi ar y safle yn ddiogel pe bai argyfwng.

Mae digon o gyfarpar a deunyddiau Cymorth Cyntaf priodol ar gael ar y safle. Bydd o leiaf un person addas sydd wedi'i hyfforddi i gynnig Cymorth Cyntaf ar ddyletswydd pan fo'r cyhoedd yn bresennol. Pan na fydd digon o olau dydd, darperir a chynhelir golau artifisial addas mewn unrhyw ardal sy'n agored i'r cyhoedd.

### **Atal niwsans cyhoeddus**

Mae cynllun rheoli sŵn wedi ei ddyfeisio ac mae ar waith ar y safle. Mae arwyddion amlwg, clir a hawdd eu darllen wedi'u harddangos wrth bob allanfa yn gofyn i'r cwsmeriaid barchu anghenion preswylwyr lleol a gadael y safle a'r ardal yn dawel. Yn ystod yr oriau olaf cyn i'r safle gau, mae lefel sain y gerddoriaeth yn cael ei gostwng ac mae'n amlwg bod y gerddoriaeth yn dawelach.

### **Amddiffyn plant rhag niwed**

Mae gan yr holl staff sy'n cymryd rhan dystysgrifau cyfredol gwell DBS. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant i Lefel 3 o leiaf.

Mae dosbarthiad ffilm yn yr adeilad yn cael ei wneud fel a ganlyn: U - Universal - addas ar gyfer cynulleidfaedd 4 oed a hŷn. PG - Canllawiau i Rien - gall rhai golygfeydd fod yn anaddas i blant ifanc. 12A - Gweld gan bobl 12 oed neu'n hŷn neu bobl iau na 12 oed yng nghwmni oedolyn. 15 - Gweld gan bobl 18 oed a hŷn.

### **General – all four licensing objectives**

The regulated activities are primarily aimed at the family and thus the approach and atmosphere will be inclusive of all age groups. As this is a booking only business a register of all attendees will be kept and effective supervision will be in place. I am are a member of Pubwatch and a representative attends Pubwatch meetings and participates in all initiatives. A Personal Licence holder will be at the premises at all times when alcohol is being sold or regulated entertainment is being provided.

All safety signs warning customers about the risks to their health and safety are to comply with BS5378 1980 : Safety Signs and Colours

Free drinking water will be available at all times when the premises is open to the public and taps are labelled as such.

We operate a complete no smoking policy at the premises.

### **The prevention of crime and disorder**

All visitors details will be recorded. A CCTV system is installed with all relevant displayed notification to record all licensable activities and will be retained for a period of 28 days. The DPS to ensure constant supervision of the licensable area. All alcohol will be served in plastic or toughened glasses. Customers will not be admitted carrying open or sealed bottles or glasses at any time. Bins will be provided for disposal of used glasses where applicable all other glasses to be removed from public areas as soon as possible.

All staff will use radios for effective communication. We will have a proof of age policy formulated in line with current guidance from the Police and the Local Authority. We have a zero tolerance of drugs and its use will not be tolerated and reported to the relevant authority.

### **Public safety**

A suitable Fire Risk Assessment at the premises has been conducted and have implemented the necessary control measures. Access is provided for emergency vehicles and kept clear and

free from obstruction at all times. . Fire drill and emergency lighting tests are conducted weekly / monthly. Records of these tests are available upon request.

Adequate arrangements exist to enable the safe movement within the premises of disabled people and their safe evacuation in the event of an emergency.

Adequate and appropriate First Aid equipment and materials are available on the premises. At least one suitable trained First Aider will be on duty when the public are present.

In the absence of adequate daylight suitable and sufficient artificial lighting is provided and maintained in any area accessible to the public.

### **The prevention of public nuisance**

A noise management plan has been devised and is in operation at the premises. Prominent, clear and legible notices are displayed at all exits requesting patrons to respect the needs of local residents and to leave the premises and the area quietly. For the final hours of opening the music is reduced in volume and is discernibly quieter.

### **The protection of children from harm**

All staff engaged have current DBS enhanced certificates. All staff have undergone child protection training to at least Level 3.

Film classification at the premises is done in the following way: U - Universal – suitable for audiences aged 4 years and over. PG - Parental Guidance – some scenes may be unsuitable for young children. 12A - Viewing by persons aged 12 years or older or persons younger than 12 when accompanied by an adult. 15 - Viewing by persons aged 18 years and over.

**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**


**Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority/ Mediation meeting**




Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans







SCALE 1



YR HEN STABL  
CAFFÉ

SCALE 1:25